| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **BWRDD PENSIWN** |
| DYDDIAD: | **10 RHAFGYR 2019** |
| TEITL: | **DIWEDDARIAD McCLOUD** |
| PWRPAS: | **HYSBYSU'R BWRDD AM DDYFARNIAD McCLOUD** |
| ARGYMHELLIAD: | **NODI'R WYBODAETH** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

---

## 1. Cyflwyniad

Mae canlyniad dyfarniad McCloud wedi dod yn fater trafferthus i weinyddwyr cronfeydd ac i gyflogwyr sydd yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL). Felly, mae'r papur yma'n diweddaru'r Bwrdd ar y sefyllfa.

## 2. Hanes

Pan ddiwygiwyd strwythur budd-daliadau CPLIL yn 2014, cyflwynwyd amddiffyniadau trosiannol i rai aelodau hŷn yn agos at oedran ymddeol arferol. Roedd hyn er mwyn sicrhau y byddai'r aelodau hyn yn cael pensiwn sydd o leiaf yn hafal i'r hyn y byddent wedi'i dderbyn yn y cynllun pe na bai wedi newid. Gelwir yr amddiffyniad hwn yn danategiad.

Ym mis Rhagfyr 2018, canfu'r Llys Apêl fod yr amddiffyniadau hyn yn anghyfreithlon oherwydd gwahaniaethu ar sail oedran ac na ellid eu cyfiawnhau. Apeliodd y Llywodraeth y penderfyniad hwn, fodd bynnag, gwadodd y Goruchaf Lys hawl y Llywodraeth i apelio ym mis Mehefin 2019.

## 3. Sefyllfa bresennol

Ar hyn o bryd rydym yn dal i aros am arweiniad ynghylch unrhyw newidiadau posibl yn y CPLIL y gellir eu cyflwyno o ganlyniad i'r dyfarniadau. Mae'n debygol y bydd unrhyw ddatrysiad yn cynnwys ymestyn rhyw fath o sylfaen i aelodau presennol nad ydynt yn cael cynnig amddiffyniad ar hyn o bryd. Byddai'r sylfaen yn sicrhau nad yw'r aelodau hyn ar eu colled o gyflwyno'r cynllun newydd, trwy roi'r buddion o'r cynlluniau hen a newydd iddynt i bob pwrpas.

## 4. Gwybodaeth bellach

Gellir cael mwy o wybodaeth o dudalen McCloud CPLIL:
[http://www.lgpsboard.org/index.php/structure-reform/mccloud-page](http://www.lgpsboard.org/index.php/structure-reform/mccloud-page)

## 5. Argymhelliad

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r wybodaeth.